# Polisïau yswiriant

13 Mai 2013

**Cais am Wybodaeth.**

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 22 Ebrill, pan wnaethoch ofyn,

*Ar gyfer pob blwyddyn ers 2009, a oes modd i chi ddarparu'r wybodaeth a ganlyn?*

1. *Nifer y taliadau yswiriant a wnaed o dan bolisi yswiriant atebolrwydd cyflogwr ac atebolrwydd cyhoeddus y Cynulliad.*
2. *Ar gyfer pob taliad yswiriant, a wnewch ddatgelu gwerth y taliad; y rheswm dros wneud y taliad yswiriant (e.e. gwarchodaeth rhag enllib neu athrod); a oedd gweithredoedd Aelod Cynulliad yn sail i'r taliad neu beidio; ac enw'r Aelod Cynulliad (os yw'n berthnasol).*
3. *Beth yw cost y polisi yswiriant hwn bob blwyddyn?*

Gyda'r polisïau y soniwch amdanynt; yn benodol, caiff y polisïau Atebolrwydd Cyflogwr ac Atebolrwydd Cyhoeddus eu prynu fel polisïau Atebolrwydd Cyfun sy'n cynnwys Atebolrwydd Cyflogwr ac Atebolrwydd Cyhoeddus. Mae gennym bolisïau Atebolrwydd Cyfun ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Y costau a ddangosir yn y tabl isod yw'r cyfansymiau cyfun.

**Atebolrwydd Cyfun**

Roedd pob hawliad yn erbyn polisi Atebolrwydd Cyhoeddus Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac nid oedd gweithredoedd Aelod Cynulliad yn sail i unrhyw daliad.

| **Blwyddyn ariannol** | **2009-10** | **2010-11** | **2011-12** | **2012-13** | **2013-14 hyd yma** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost y polisi** | £30,988 | £35,407 | £34,295 | £30,584 | £18,920 |
| **Nifer yr hawliadau** | 1 | 2 | n/a | 1 | n/a |

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8635
E-bost: Buddug.Saer@cymru.gov.uk

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

| **Gwerth y taliadau (hawliadau a dalwyd gan yr yswiriwr)** | £11,000 | £11,000 a £8,600 | Dim | £360 | Dim |
|---|---|---|---|---|---|
| **Polisi** | Atebolrwydd Cyhoeddus | Atebolrwydd Cyhoeddus | Atebolrwydd Cyhoeddus | Atebolrwydd Cyhoeddus | Atebolrwydd Cyhoeddus |
| **Rheswm** | Anaf personol | Anaf personol x 2 | n/a | Difrod i eiddo personol | n/a |

**Indemniad Proffesiynol**
Mae gennym bolisi ar wahân ar gyfer Peryglon Arbennig y Cyfryngau sy'n cynnwys gwarchodaeth rhag enllib ac athrod ar gyfer Aelodau'r Cynulliad (h.y. nid ar gyfer Comisiwn y Cynulliad). Amlinellir y costau blynyddol yn y tabl isod. Ni hawliwyd dim yn erbyn y polisi hwn.

| **Blwyddyn ariannol** | **2009-10** | **2010-11** | **2011-12** | **2012-13** | **2013-14 hyd yma** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost y polisi** | £28,750 | £28,750 | £29,000 | £25,820 | £14,761 |
| **Nifer yr hawliadau** | Dim | Dim | Dim | Dim | Dim |

Noder ein bod, eleni, wedi sicrhau gostyngiad o 40 y cant yn y gost am y ddau bolisi.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan ar http://www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch Cais am Wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled o'r cod.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae gennych hawl i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth / Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhaglenni**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**